

Dydd Gweddi Efe

Bydd Cynllun Efe yn cynnal Dydd Gweddi yng Nghapel y Rhos, Llanrug, ddydd Llun, Mawrth 16, rhwng 2.00 ac 8.00 o'r gloch.

Gwahoddir pawb sydd â diddordeb yng ngwaith Efe i ddod yno pa bryd bynnag fydd yn hwylus yn ystod y pawns a'r gyda'r nos. Nid oes rhaid i neb ddod am y cyfnod cyfan, ond bydd croeso i bobl bicio i mewn am gyfnod, hyd yn oed os mai ychydig funudau fydd hynny.

Bydd y cyfan mor anffurfiol ag y bo modd, a dim pwysau ar neb i gymryd rhan 'yn gyhoeddus'. Mae amryw o bobl wedi cytuno i arwain yr addoli a'r gweddio am gyfnodau penodol. Bydd cyfle am banded a sgwrs bob hyn a hyn yn ystod y dydd.

Am ragor o fanylion cysylltwch ag Andrew neu'r Gweinidog.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Nos Wener, Mawrth 6: Oedfa Dydd Gweddi Byd Eang y Chwiorydd yn Ebeneser am 6.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Mawrth 8: Bydd yr Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch a gwasanaethir

Y mis nesaf - Deiniolen

Mawrth 1

9.30 a.m. - Y Gweinidog
10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Eric Jones

Mawrth 8

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Cath Williams

Mawrth 15

10.00 a.m. - Oedfa Deulu
5.00 p.m. - Y Gweinidog

am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Cath Williams.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Sul, Mawrth 8: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Bydd oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Mawrth 8: Ni fydd oedfa.

BETHLEHEM

Dydd Iau, Mawrth 5: Cynhelir 'Bwrlwm' am 2.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Mawrth 8: Bydd yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch a gwasanaethir yn yr Oedfa Gymundeb am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CARMEL

Nos Wener, Mawrth 6: Cynhelir 'Dwylo Prysar' am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Mawrth 8: Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch, a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg John Lewis Jones.

CYNLLUN EFE

Dydd Gwener, Mawrth 6: Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caeathro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch.

Y mis nesaf - Llanberis

Mawrth 1

10.00 a.m. - Mr Euron Hughes
11.15 a.m. - Ysgol Sul

Mawrth 8

10.00 a.m. - Y Gweinidog
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

Mawrth 15

10.00 a.m. - Mr John Hughes
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa yng ngofal merched Parti Bytholwyrdd



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 627 Dydd Sul, 01 Mawrth, 2015

Y pethau bychain

Dyn dieithr i mi yw Dewi Sant. Welais i mohono, a fûm i erioed yn siarad ag o. Ond pe digwyddai i mi ei weld, mi fyddwn yn gofyn a wnaeth o ddifaru sôn am 'y pethau bychain' yn y bregeth olaf a draddododd. Roedd hynny rai dyddiau cyn iddo farw ar Fawrth 1, yn y flwyddyn 589 mae'n debyg.

Oherwydd y geiriau olaf a briodolir iddo, 'dyn y pethau bychain' fu Dewi ers hynny i lawer o bobl. Roedd yn amlwg yn rhoi bri ar 'bethau bychain'; ond y drwg yw na wyddon ni beth yn union oedden nhw. Ac mae pawb erbyn hyn yn defnyddio'r hen Dewi er mwyn tynnu sylw at ryw 'bethau bychain' neu'i gilydd sydd o bwys iddyn nhw eu hunain. Ac wrth i bobl ddathlu Gŵyl Ddewi, fe sonir am lawer o 'bethau bychain' fel cychwyn pob sgwrs yn Gymraeg; ailgylchu; helpu cymydog; diffodd goleuadau; cefnogi busnesau lleol; blogio a thrydaru yn Gymraeg; a a'r cyfan i'w gwneud er gwarchod iaith a chymuned a daear.

Oes, mae pob math o 'bethau bychain' buddiol sy'n werth eu gwneud. Ond nid oes a wnelo llawer ohonyn nhw ddim â'r hyn oedd ym meddwl Dewi nôl yn y chweched ganrif. Fe anghofir yn aml mai rhan o neges Gristnogol oedd geiriau Dewi; ac mae cyd-destun y geiriau hyn yn ein hatgoffa mai 'dyn y pethau mawr' oedd Dewi mewn gwirionedd. 'Arglwyddi, frodyr a chwiorydd,' meddai, 'byddwch lawen a chedwch eich ffydd a'ch cred, a

gwnewch y pethau bychain a glywsoch ac a welsoch gennyf fi. A minnau a gerddaf y ffordd yr aeth ein tadau ni iddi, ac yn iach i chi. A bydded i chi fod yn rymus ar y ddaear, a byth bellach ni welwn mo'n gilydd.'

Pethau mawr bywyd ydi ffydd a chred a'r llawenydd a ddaw gyda nhw. A sôn am bethau mawr a wnawn wrth gydnabod breuder bywyd a'r gwahanu sy'n digwydd am fod rhaid i bawb fynd 'y ffordd yr aeth ein tadau iddi'. Ac yn sicr, pethau mawr sydd dan sylw pan soniwn am lawenydd a ffydd a chryfder er gwaethaf y gwahanu hwnnw. Dyna gyd-destun y geiriau, ac felly mae 'pethau bychain' Dewi yn awgrymu'r gweithredoedd sy'n tarddu o ffydd achubol y Cristion yn Iesu Grist; y gweithredoedd y mae pobl yn eu gwneud am eu bod yn credu yng Nghrist ac yn ei dderbyn yn Arglwydd eu bywydau.

Ie, 'dyn y pethau mawr' oedd Dewi. Dyn ffydd a chred; dyn gras a chariad Duw; dyn yr Efengyl a'r Gair oedd o. Cyhoeddi'r Ffydd; amddiffyn a gwarchod yr Efengyl; cynnull pobl yn gymuned ac eglwys oedd gwaith mawr ei fywyd. Anghymwynas fawr â Dewi fyddai ysgaru'r hyn a ddywedodd am y 'pethau bychain' oddi wrth weddill ei eiriau yn y fan hyn. Rhaid derbyn o bosibl y bydd llawer yn dehongli ei eiriau mewn amrywiol ffyrdd; ond i bobl y Ffydd, gweithredoedd o gariad ac ufudd-dod i Dduw yw'r 'pethau bychain' o hyd.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon y Sul. Boed bendith Duw ar ein haddoliad.

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan Mr Euron Hughes. Diolch iddo am ei wasanaeth. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Nid oes oedfa heno.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 9.30 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch ac oedfa am 5.00 o'r gloch dan arweiniad y Parchg Eric Jones, Bangor. Diolch iddo am ei wasanaeth.

Gwasanaethir yn Rehoboth am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd Oedfa Gŵyl Ddewi yng ngofal yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch ac Oedfa Gymun yng ngofal y Gweinidog am 5.00 o'r gloch.

Ni chynhelir Ysgol Sul nac oedfa yn Nhalybont oherwydd y gweithgareddau Gŵyl Ddewi ym Methesda.

Cofion

Anfonwn ein cofion gorau at bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd.

Oedfa Gŵyl Ddewi

Cynhelir Oedfa Gŵyl Ddewi yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis am 7.00 o'r gloch heno, nos Sul, Mawrth 1. Mae aelodau'r Eglwys yn estyn gwahoddiad i bawb i ymuno â hwy ar gyfer yr oedfa.

Cwrs Ieuentid

Diolch yn fawr i Andrew am fynd efo'r ieuentid i Goleg y Bala wythnos yn ôl. Roedd yn dda clywed bod yr ieuentid wedi mwynhau eu hunain. Roedd yno bobl ifanc o bob rhan o'r Gogledd, a chan fod dros 80 ohonyn nhw roedd rhai'n aros yng Nghanolfan Gristnogol Bryn y Groes ym mhen arall y dref. Diolchwn am lwyddiant y gwaith, a gweddiwn y bydd Duw'n bendithio'r cyfan a wnaed yr wythnos ddiwethaf.

Dydd Gweddi'r Chwirydd.

Cynhelir Gwasanaeth Dydd Gweddi Byd Eang y Chwirydd yn Ebeneser, Deiniolen am 6.00 o'r gloch, nos Wener, Mawrth 6. Croeso cynnes i bawb.

Cynhelir oedfa undebol y Dydd Gweddi hefyd yng nghapel Jerusalem, Bethesda am 2.00 o'r gloch ddydd Gwener, Mawrth 6.

Cymdeithas Undebol

Yng nghyfarfod Cymdeithas Undebol Deiniolen nos Lun diwethaf cafwyd sgwrs gan Mr Wyn Peate am ei yrfa fel hyfforddwr gyrru. Diolchwyd iddo gan Mr Brian Price.

Oedfa Sefydlu

Cofiwch am yr Oedfa Sefydlu a gynhelir yng nghapel Carmel, Llanllechid am 5.00 o'r gloch, nos Sul, Mawrth 22 er mwyn nodi'n swyddogol ymestyn yr Ofalaeth i gynnwys eglwys Annibynnol Carmel a Bethlehem, Talybont pan gaiff y Parchg John Pritchard ei sefydlu'n weinidog i'r ddwy eglwys.

Estynnir croeso cynnes i aelodau'r ddwy eglwys i'r oedfa hon. Estynnir croeso hefyd i aelodau'r eglwysi yn Llanberis a Deiniolen a Nant Peris i ymuno yn yr oedfa er mwyn nodi dechrau newydd yr Ofalaeth estynedig. Bydd croeso hefyd wrth gwrs i gyfeillion yr eglwysi a phawb a garai ddod yno i fod yn rhan o'r dathliad a'r addoliad.

Trefnwyd bws o Lanberis a Deiniolen. Rhowch wybod os ydych am ddod ar y bws os gwelwch yn dda.

Angladd

Cynhaliwyd angladd Mrs Gwyneth Jones, 4 High Street, Llanllechid yng nghapel Carmel a Mynwent Coetmor ddydd Llun, Chwefror 23 dan arweiniad y Gweinidog a'r Parchg Dafydd Coetmor Williams. Yn ei deyrnged i Mrs Jones, soniodd Dafydd am ei gofal am ei theulu, am ei phrysurddeb yn ei chartref ac am y cysylltiad a fu ganddi â'r capel a'r Ysgol Sul yng Ngharmel. Cydymdeimlwn â Peter a Janice, ac Yvonne a Gwyn a'r teulu cyfan yn eu profedigaeth.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys ag Ernest a Margaret Jones, Hafan, Porth y Gogledd, Deiniolen o glywed am fam Ernie yng Nghaernarfon. Roedd Mrs Maud Jones yn 106 mlwydd oed. Cynhaliwyd ei hangladd yn Eglwys Llanbeblig echdoe, dydd Gwener, Chwefror 27. Boed Duw yn gymorth ac yn gysur i'r teulu.

Cydymdeimlo

Bu farw Mrs Megan Roberts, Caernarfon yr wythnos ddiwethaf. Roedd ganddi ddiddordeb mawr yn yr eglwys yn Nant Padarn gan fod ei diweddar ŵr, y Parchg L G Roberts, wedi bod yn weinidog yma o 1945 hyd 1953 pan symudodd i Gapel Iwan, cyn dychwelyd i'r Gogledd, i'w gofalaeth olaf, yn Chwilog. Cydymdeimlwn â'i meibion, Alun ac Arwel a'u teuluoedd.

Apêl Flynyddol Efe

Daeth yn amser i gyflwyno Apêl Flynyddol Cynllun Efe, sy'n cynnal Andrew Settatree yn weithiwr ieuentid Cristnogol ym mro Eco'r Wyddfa.

Y nod yw cyflwyno'r **E**fengyl i **F**ro'r **E**co, a llythrennau cyntaf y geiriau hyn sy'n rhoi'r enw 'Efe' i ni.

Ddwy flynedd yn ôl, aed ati i geisio mwy o bobl i gyfrannu'n ariannol at y gwaith am ein bod yn sylweddoli mai arnom ni yn lleol yr oedd y cyfrifoldeb a'r fraint o gefnogi'r gwaith hwn.

Cyflwynwyd cynlluniau 'Un o Gant' ac 'Un o Fil'. Y syniad oedd cael 1000 o bobl i gyfrannu £20 y flwyddyn at y gwaith, a 100 o bobl i gyfrannu £100. Cafwyd cefnogaeth hael gan lawer, a gwerthfawrogn hynny'n fawr iawn.

Mae rhai wedi ymrwymo i gyfrannu yn fisol neu'n flynyddol, ac eraill yn ymateb i'r Apêl Flynyddol a wneir erbyn hyn bob mis Mawrth. (Gellir cyfrannu unrhyw adeg o'r flwyddyn wrth gwrs, ond mae'r Apêl Flynyddol yn rhoi cyfle arbennig i ni atgoffa ein cefnogwyr o'r angen ariannol.) Os medrwrch gyfrannu unrhyw swm, byddwn yn ddiolchgar iawn i chi. Os ydych eisiau rhagor o wybodaeth am waith Efe cysylltwch â'r Gweinidog. Mae sicciau i'w gwneud yn daladwy i 'Cynllun Efe'.